## Llesiant

Mae gan blant lais cryf. Mae gan blant ryddid i archwilio eu hystafell chwarae a dewis pa deganau y maent am chwarae â hwy a lle maent am chwarae. Er enghraifft, pan ofynnwyd, *“Pwy sydd eisiau mynd allan i chwarae?”*, ymatebodd y mwyafrif *“Fi!”* a dywedodd eraill, *“Dwi eisiau aros tu mewn.”* Ymatebodd staff, *“Mae hynny'n iawn, does dim rhaid i chi fynd allan.”* Mae gan y plant ddewis o ba liw siwt wlyb i'w gwisgo cyn mynd allan i chwarae. Gwnaethant ofyn yn hyderus am fwy o gaws amser cinio a rhoddwyd mwy iddynt.

Mae plant yn hapus yn y lleoliad. Maent yn adnabod y trefniadau arferol yn dda, hyd yn oed gyda'r arferion glanhau a hylendid ychwanegol sy’n gysylltiedig â COVID-19. Maent yn golchi eu dwylo ar amserau addas ac yn helpu i dacluso teganau a’u rhoi i gadw ar ôl gorffen chwarae â nhw. Mae plant iau yn cadw yn agos at staff gofal gan eu bod yn ansicr o'n presenoldeb. Daeth y plant hŷn atom yn hyderus i rannu storïau a dangos eu teganau. Dywedodd rhieni fod eu plant yn mwynhau mynychu'r gwasanaeth yn fawr.

Mae gan y plant ymrwymiadau hoffter da gyda'r staff gofal, ac maent yn chwilio am bobl gyfarwydd y maent yn gwybod y byddant yn barod i'w cynorthwyo. Er enghraifft, eisteddodd un plentyn ar lin un aelod o staff, gan nythu yn ei erbyn. Mae’r plant yn dechrau dysgu am rannu a chymryd eu tro. Mae angen atgoffa rhai plant am bwysigrwydd rhannu offer a bod yn garedig â'i gilydd. Er enghraifft, pan gymerodd un plentyn yr holl uwd a photiau o'r gegin fwd, fel na allai neb arall chwarae â nhw.

Mae plant yn mwynhau chwarae ac yn ddysgwyr chwilfrydig a chynhyrfus. Er enghraifft, roedd y plant yn mwynhau gwneud prydau i ni yn y gegin, gan ganu a sgwrsio wrth iddynt goginio: *“Stwnsh, stwnsh, stwnsh … cymysgu, cymysgu, cymysgu.” “Mae angen i ni gadw'r bwyd yn neis ac yn gynnes.”* Mae plant nad ydyn nhw eisiau cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion yn gallu dewis yn annibynnol i chwarae ag adnoddau eraill. Roedd bron pob plentyn yn mwynhau ystod dda o gyfleoedd diddorol, gan gymryd rhan mewn gweithgareddau am gyfnodau priodol. Er enghraifft, gwelsom blant yn mwynhau chwarae yn yr ardal adeiladu am gyfnod o 15 munud, yn trwsio trenau a cheir. Roedd plentyn arall yn gosod bloc ar ddoli ac yn dweud, *“Mae’r babi’n chwarae â’r bloc.”*

Mae'r plant yn profi cyfleoedd diddorol sy’n addas i'w datblygiad. Maent yn dangos diddordeb ac yn ymateb i'r gweithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt. Er enghraifft, defnyddiodd y plant lud i ludo darnau o bapur at ei gilydd i greu Sali Mali. Mae'r plant yn gallu cyrchu cypyrddau storio yn annibynnol pan fyddant eisiau gweithgaredd. Mae'r plant yn cael eu hannog i ddatblygu sgiliau annibyniaeth, sydd yn eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Er enghraifft, roedd rhai plant yn cau sips eu cotiau eu hunain tra oedd angen rhywfaint o help i ddechrau ar rai eraill.

